**Cylch Gorchwyl Pwyllgor:**
# GRŴP GWEITHREDOL Y BRIFYSGOL

Yn adrodd i: Amherthnasol

Yn cyfarfod bob: Fel y penderfyna’r Is-Ganghellor

*Adolygwyd y Cylch Gorchwyl ddiwethaf: Chwefror 2022 (diwygiadau canlyniadol);*
*I’w adolygu nesaf: Awst 2024*

| Aelodau: | Hefyd yn bresennol: |
|---|---|
| • Is-Ganghellor (Cadeirydd)<br>• Dirprwy Is-Gangellorion<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>• Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol | • Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol<br>• Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus<br>• Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor<br>• Ysgrifennydd y Brifysgol |
| 8 aelod.<br>Cworwm: 5 aelod | Yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, gellir gwahodd swyddogion eraill o’r Brifysgol i fod yn bresennol, fel y bo’n ofynnol. |

Cylch Gwaith:

Fel uwch dîm rheoli'r sefydliad, bydd Grŵp Gweithredol y Brifysgol yn cynghori’r Is-Ganghellor, y dirprwyodd y Cyngor gyfrifoldeb cyffredinol iddi, fel y prif swyddog academaidd, gweinyddol a chyfrifyddu, dros reoli'r Brifysgol.

Felly, bydd Grŵp Gweithredol y Brifysgol yn ystyried unrhyw fater o'r fath y bernir ei fod yn briodol er mwyn:

a. Cynghori'r Is-Ganghellor ar faterion y mae ganddi gyfrifoldeb cyffredinol drostynt, lle dymuna’r Is-Ganghellor ymgynghori ag aelodau o Weithrediaeth y Brifysgol cyn gwneud penderfyniad.

b. Cynghori aelodau eraill o Weithrediaeth y Brifysgol ar faterion y mae ganddynt gyfrifoldeb dirprwyedig penodol drostynt, lle dymuna’r aelodau craidd hyn ymgynghori â chydweithwyr cyn gwneud penderfyniad.

c. Ystyried a chynghori'r Is-Ganghellor ar faterion a ddirprwywyd i Grŵp Gweithredol y Brifysgol sy'n ymwneud â Siarter ac Ystatudau, Ordinhadau, Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau’r Brifysgol.

---

Cylch Gorchwyl:

1. Deall a dehongli'r amgylchedd strategol y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddo, gan gynnwys lledaenu dadansoddiadau ac ymgynghori ar y dewisiadau strategol sy'n wynebu'r Brifysgol.

2. Datblygu a chynnig strategaethau sefydliadol i’w cymeradwyo, a monitro'r modd y cânt eu cyflawni.

3. Datblygu a chymeradwyo cynllun gweithredu blynyddol sy'n nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu ym mhob un o sesiynau academaidd y Brifysgol, a monitro sut y cânt eu cyflawni.

4. Monitro ac adolygu perfformiad y Brifysgol (a pherfformiad ei Chyfadrannau cyfansoddol a’i Gwasanaethau Proffesiynol) a chyfleoedd i ddatblygu er mwyn gwneud y gorau o'u cyfraniad a'u heffaith o fewn y Brifysgol, yn ogystal ag ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

5. Datblygu a chyflwyno cyllideb flynyddol y Brifysgol i'w chymeradwyo; a bod yn gyfrifol am ddyrannu a defnyddio adnoddau o fewn y paramedrau cyffredinol a bennir gan y gyllideb gymeradwy, a sicrhau cynaliadwyedd cyffredinol y sefydliad.

6. Hwyluso a chytuno ar weithgarwch a chyfathrebu ar draws y Brifysgol, gan gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng aelodau er mwyn gallu cyfnewid gwybodaeth yn gyflym ac yn effeithiol, er mwyn galluogi trafodaethau strategol o fewn Grŵp Gweithredol y Brifysgol, y Cyfadrannau a'r Gwasanaethau Proffesiynol.

7. Rheoli enw da'r Brifysgol, a bod yn ystyriol o'r enw da hwnnw.

8. Cynnig ymatebion i ddatblygiadau allanol a mewnol, yn unol â'r Atodlen Fusnes y cytunwyd arni, a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor, i'r Senedd neu i is-bwyllgor llywodraethu i'w cymeradwyo fel y bo'n briodol.

9. Sicrhau fforwm i gyfnewid syniadau, lleisio barn ac i drafod cynllunio ar gyfer y dyfodol ac arferion da.

10. Goruchwylio gweithgareddau pwyllgorau a grwpiau gweithredol eraill ar lefel y Brifysgol sy'n ymgymryd â gwaith allweddol ar ran Grŵp Gweithredol y Brifysgol, gan dderbyn adroddiadau ar eu gweithgareddau a chynigion i'w hystyried, fel y bo'n briodol.